# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 17.10.17

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, R Medwyn Hughes, Eryl Jones-Williams, Dewi Wyn Roberts, W Gareth Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Gethin Glyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd W Gareth Roberts yn Gadeirydd am 2017/18.**

**2. ETHOL IS GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn Is Gadeirydd am 2017/18**.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Dyfrig Siencyn ac Ioan Thomas

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 o Chwefror 2017 fel rhai cywir.

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

Cytunwyd bod yr Aelod Cabinet perthnasol yn cael bod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth

## 8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH ADDYSG

Adroddodd y Cadeirydd mai un cais yn unig oedd wedi ei dderbyn am y swydd.

Awgrymodd bod modd ynteu:

- Parhau i dynnu rhestr fer
- Ystyried ail hysbysebu

Cynigwyd ac eiliwyd parhau gyda llunio rhestr fer

Mewn ymateb i sylw pam nad oedd Penaethiaid Ysgolion Cynradd ac Uwchradd wedi ceisio am y swydd, adroddodd y Prif Weithredwr y byddai'n cynnal arolwg ymysg Penaethiaid i geisio sefydlu pam nad oedd mwy o geisiadau yn cael eu derbyn, er mwyn ceisio darganfod atebion ar gyfer y dyfodol.

**PENDERFYNWYD RHOI YR YMGEISYDD AR Y RHESTR FER**

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfweliadau i'w cynnal Tachwedd 8fed 2017

**CWESTIYNAU AR GYFER Y CYFWELIAD**

Dosbarthwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad ar gyfer y cyfweliad.

**PENDERFYNWYD anfon sylwadau am y cwestiynau yn uniongyrchol at y Prif Weithredwr**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:40pm